

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 13 Chwefror 2019

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: Datganiad Ansawdd Blynyddol 2018 / 2019 - Canllawiau

Dyddiad dod i ben / Adolygu Mawrth 2020

I'w weithredu gan:
GIG Cymru

Camau i'w cymryd erbyn: 31 Mai 2019

Anfonwyd gan: Jan Firby
Cyflenwi Ansawdd Gofal Iechyd
Gofal Iechyd Poblogaethau

Enw(au) Cyswilt AIGC yn Llywodraeth Cymru:
Mandy Stone
Gofal Iechyd Poblogaethau
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Dogfen(nau) amgaaedig: Canllawiau Datganiad Ansawdd Blynyddol 2018-19

Datganiad Ansawdd Blynyddol 2018-19

1. Cefndir

Mae'n ofynnol i bob sefydliad y GIG gyhoeddi **Datganiad Ansawdd Blynyddol**, fel rhan o broses adrodd blynyddol y sefydliad. Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn rhoi canllawiau ar gynnwys a strwythur y Datganiad ar gyfer 2018-19.

2. I bwy mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol a beth ydyw?

Dogfen ar gyfer y boblogaeth sy'n preswyllo yn ardal y sefydliad yw ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol. Mae'n gyfle i'r sefydliad roi gwybod i'r cyhoedd, mewn ffordd onest ac agored, sut y mae'n perfformio i sicrhau bod ei wasanaethau'n diwallu anghenion lleol ac yn bodloni safonau uchel.

Felly, dylai gyflwyno crynodeb sy'n tynnu sylw at yr hyn y mae'r sefydliad wedi bod yn ei wneud i wella ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac yn eu comisiynu, er mwyn ysgogi gwelliannau yn iechyd y boblogaeth ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Dylai'r broses o ddatblygu Datganiad Ansawdd Blynyddol alluogi byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau i:

- ddarparu asesiadau o ba mor dda y maent yn perfformio ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol, gofal sylfaenol a'r rheini lle mae sectorau eraill yn chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y trydydd sector a gofal cymdeithasol;
- hyrwyddo arferion da a'u hymledu'n fwy eang;
- cadarnhau pa feysydd sydd angen eu gwella;
- adeiladu ar Adroddiad Ansawdd Blynyddol y flwyddyn flaenorol; adrodd ar gynnydd, flwyddyn ar ôl blwyddyn;
- rhoi cofnod o ansawdd eu gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill;
- ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau a dderbyniant gan eu Bwrdd Iechyd / Ymddiriedolaeth y GIG er mwyn helpu i benderfynu beth i'w gynnwys yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol.

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn cynnig cyfle i 'adrodd y stori'. Lle rhoddwyd enghreifftiau o arferion da a mentrau sy'n cael eu rhoi ar waith, dylid parhau â hyn fel thema barhaus i ddylanwadu ar y canlyniadau. Mae'n rhoi cyfle i gadarnhau beth oedd yn llwyddiant a beth nad oedd mor llwyddiannus a pha gamau sy'n cael eu cymryd o ganlyniad wrth symud ymlaen. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gadarnhau sut y mae mentrau llwyddiannus yn cael eu cyflwyno mewn wardiau, ysbytai eraill etc mewn maes sefydliadol.

Bydd y Datganiad Ansawdd Blynyddol hefyd yn gyfle i dynnu sylw at unrhyw faterion lleol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn – er enghraifft, dylid rhoi sylw yn y Datganiad i rywbeth a allai fod wedi cael sylw amlwg yn y cyfryngau. Bydd cyfle yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol i gadarnhau pa gamau sydd wedi cael / sy'n cael eu cymryd a pha wahaniaeth mae hyn yn ei wneud i ansawdd a diogelwch y gofal ar lefel leol.

Bydd yn bwysig ymgysylltu â'r cyhoedd i ddeall beth sydd o bwys iddynt hwy a beth yr hoffent ei weld yn eu datganiadau ansawdd lleol.

Rhaid i'r Datganiad gynnwys pob thema allweddol yn unol â *Safonau Iechyd a Gofal Cymru a Fframwaith Cyflawni a Chyflenwi GIG Cymru*. Mae hefyd yn cynnig cyfle i adlewyrchu'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud i wasanaethau yn unol â'r disgwyliadau a amlinellir yn *Cymru Iachach*, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

3. Sut ddylai Datganiad edrych?

Dylid cyflwyno'r Datganiad Ansawdd Blynyddol mewn ffordd y bydd y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn ei deall. Dylid ei ysgrifennu gan ddefnyddio Cymraeg clir, heb jargon, a dylid hefyd ddefnyddio delweddau i ategu negeseuon allweddol. Er mwyn sicrhau dull cyson yn genedlaethol, mae cyngor manylach i'w gael yn Atodiad 1.

Dylai ddangos i'r darlennydd lle y gall weld adroddiadau manylach ar feysydd penodol i wasanaeth, gan gynnwys cynnydd yn erbyn cynlluniau cyflenwi penodol i wasanaeth unigol. Dylai gynnwys meysydd lle mae gwaith yn gorgyffwrdd â phartneriaid eraill, gan gynnwys gofal cymdeithasol, ac unrhyw enghreifftiau lle mae gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau yn gwneud gwir wahaniaeth i iechyd a llesiant.

Bydd angen i swyddogion sy'n arwain ar gyfathrebu mewn sefydliadau weithio'n agos gyda'u cydweithwyr diogelwch i sicrhau bod cynnwys a ffurf y Datganiad fel y'u disgwylir mewn adroddiad sydd ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen. Rydym yn disgwyl y bydd adrannau cyfathrebu yn mynd ati i hybu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol drwy'r fewnrwyd, y rhyngrwyd a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol cymeradwy fel Facebook a Twitter.

4. Beth sydd angen ei drafod?

Prif ddiben Datganiad Ansawdd Blynyddol yw cyfuno elfen o edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan edrych ymlaen hefyd drwy ddefnyddio data a gwybodaeth sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn adrodd. Wrth edrych yn ôl, dylai byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau geisio ateb y cwestiynau canlynol:

- a ydym yn bodloni'r safonau a'r gofynion cyflenwi ac a ydym yn gwella canlyniadau, ar draws llwybrau gofal cleifion yn gyfan?
- a ydym wir yn ceisio deall profiad cleifion/defnyddwyr ac a ydy'n gwella?
- a ydym yn bodloni ein nodau gwella neu'n rhagori arnynt?

- a ydym yn gweithredu mewn ffordd agored ac yn dysgu o gamgymeriadau a phryderon?

Dylai'r Datganiad Ansawdd Blynyddol gynnwys y mentrau sy'n cael eu datblygu gan y sefydliad mewn perthynas â Chymru o Blaid Affrica a phartneriaethau ieuchyd rhyngwladol eraill. Dylid gosod hyn yng nghyd-destun gweithgareddau'r sefydliad ar gyfer cyflawni egwyddorion y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i ymwreiddio **dull seiliedig ar hawliau** sy'n mynd i'r afael ag agweddau oedraniaethol a stereoteipiau ac sy'n rhoi hawliau ar waith mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi nodi 'deuddeg maes allweddol' sy'n cael eu hystyried yn ganolog i ofal diogel, urddasol a thosturiol. Mae adnodd y Comisiynydd Pobl Hŷn **Rhoi Hawliau ar Waith mewn Gwasanaethau Cyhoeddus** yn darparu canllawiau ac enghreifftiau a allai fod yn ddefnyddiol.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddai sefydliadau yn gallu dangos enghreifftiau o wasanaethau neu gamau gweithredu mewn gofal sylfaenol a chymunedol sy'n ymwreiddio dull seiliedig ar hawliau, ac yn ei hyrwyddo, yn y Datganiad drwyddo draw.

Wrth baratoi'r Datganiad, dylai'r sefydliad fanteisio ar gyfle arall hefyd i sylwi ar risg i gyflawni gofal o ansawdd uchel, a lliniaru'r risg honno, a bod yn onest ynglŷn â pherfformiad. Dylai hefyd alluogi byrddau ieuchyd lleol ac ymddiriedolaethau i nodi meysydd lle ceir enghreifftiau o arloesi yn lleol wrth gyflenwi a thrawsnewid gwasanaethau, a chanu eu clodydd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr arferion hyn yn cael eu hymledu a bod gwelliannau yn gynaliadwy, a bydd yn caniatáu iddynt hefyd nodi meysydd lle mae integreiddio a gweithio mewn partneriaeth yn allweddol ar gyfer llwyddo.

Dylai byrddau ieuchyd lleol ac ymddiriedolaethau ddefnyddio'r broses hon i bennu ffocws a blaenoriaeth ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a dylid adlewyrchu hyn yn eu cynllun tymor canolig integredig.

Mae manylion y fframwaith y dylid ei ddefnyddio ar gyfer cyflwyno'r datganiad i'w cael yn Atodiad 1.

5. Hygyrch i bawb

Mae Datganiad Ansawdd Blynyddol yn ddogfen gyhoeddus. Dylid ei chyflwyno felly mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb. Efallai y bydd sefydliadau'n dymuno ystyried amryw o ffyrdd o 'adrodd y stori'. Gallent ddewis gwneud hyn drwy gyfuniad o astudiaethau achos a storïau cleifion yn ogystal â data meintiol a gyflwynir yn glir ac yn gryno, a fydd yn dangos i'r darllenydd lle i gael gwybodaeth fanylach neu fwy technegol yn ôl yr angen. Mae'n bwysig taro'r cydbwysedd cywir rhwng darparu gwybodaeth gadarnhaol a chydabod lle y mae angen i wasanaethau wella.

6. Cyhoeddi'r Datganiad Ansawdd Blynyddol

Rhaid cyhoeddi Datganiad Ansawdd Blynyddol dwyieithog yn electronig ar wefan sefydliadau, a dylid sicrhau bod copiâu caled ar gael ar gais. Dylai sefydliadau gadw mewn cof hefyd beth yw anghenion eu poblogaethau lleol ac ystyried gwneud y datganiad ar ffurfiau eraill neu mewn ieithoedd eraill pan fo angen, gan ystyried gwneud mwy na dim ond bodloni'r gofynion cyfreithiol mewn materion o'r fath.

Rhaid llunio'r Datganiad Ansawdd Blynyddol ar sail blwyddyn ariannol, sy'n cyd-fynd â chyfnodau adrodd ar gyfer data ariannol a data ar berfformiad yng Nghyfrifon Blynyddol sefydliadau'r GIG.

Dylid cyhoeddi datganiadau erbyn **31 Mai 2019** fan bellaf, yn unol â'r amserlen cyfrifyddu ac adrodd flynyddol.

Cydnabyddir bod hyn yn gallu arwain at anawsterau o ran cael mynediad prydlon at ddata ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn bodloni amserlenni cyhoeddi. I oresgyn hyn, awgrymir tair ffordd y gellid cyflwyno gwybodaeth feintiol, gan ddibynnu ar y data a fydd ar gael adeg yr adrodd:

1. Os oes gwerth blwyddyn ariannol gyfan o data ar gael ar gyfer, dylid cynnwys data ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Mawrth.
2. Os nad oes gwerth blwyddyn ariannol gyfan o ddata ar gael, dylid defnyddio'r flwyddyn galendr o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr i ddangos tueddiadau mewn perfformiad a'u cefnogi gyda sylwadau ar y cyflawni diwedd blwyddyn rhagamcanol lle y bo hynny'n bosibl.
3. Os yw'r mesur yn ansoddol o ran natur neu os nad yw'r data ar gael ar sail blwyddyn ariannol nac ar sail blwyddyn galendr, dylai sefydliadau'r GIG roi sylwebaeth ar gyflawni diwedd blwyddyn yn y gorffennol a'r hyn a ragwelir at y dyfodol. Argymhellir y dylech groesgyfeirio lle y bo'n berthnasol at eich Adroddiad Blynyddol er mwyn osgoi dyblygu a darparu dull mwy cydweithredol.

Dylid hefyd datblygu strategaeth gyfathrebu i helpu i gyhoeddi a hyrwyddo'r datganiad Ansawdd Blynyddol.

7. Sicrhau'r Datganiad Ansawdd Blynyddol

Y Bwrdd sy'n atebol am Ddatganiad Ansawdd Blynyddol y sefydliad a rhaid iddo fod yn gwbl sicr felly, drwy ei fecanweithiau sicrwydd mewnol, gan gynnwys trefniadau archwilio mewnol, fod yr wybodaeth a gyhoeddir yn gywir ac yn gynrychioliadol o ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddo a'r gwelliannau y mae'n ymrwymo iddynt. Bydd angen i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gynnwys datganiad yn cadarnhau hyn. Efallai y bydd sefydliadau hefyd yn dymuno cynnwys datganiadau sy'n dangos y rhan y mae rhanddeiliaid eraill yn ei chwarae, fel y Cyngor Iechyd Cymuned, a gofal cymdeithasol, wrth lunio eu Datganiad terfynol.

8. Adolygu

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda sefydliadau'r GIG i werthuso cynnydd a gwneud gwelliannau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Bydd y broses hon yn cael ei goruchwylio gan y Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol.

**Datganiad Ansawdd Blynyddol
Templed ar gyfer 2018/19**

1. Datganiad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

2. Cyflwyniad

Dylai'r adran hon osod y cyd-destun, gan egluro'r anghenion poblogaeth y mae'r sefydliad wedi'u nodi ac y mae'n dymuno eu bodloni. Dylai hefyd grynhoi'r camau sy'n cael eu cymryd i ymgysylltu â'i boblogaeth a'i ddefnyddwyr. Dylid crynhoi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a bennwyd y flwyddyn flaenorol ac unrhyw heriau yn ystod y flwyddyn a digwyddiadau annisgwyl a allai fod wedi dylanwadu ar hyn.

3. Edrych yn ôl Dros y Flwyddyn Ddiwethaf

Dylid cyflwyno'r adran hon yn erbyn y themâu unigol isod. Dylid ceisio sicrhau bod y dull cenedlaethol mor gyson â phosibl, a darparu cyfle ar yr un pryd i adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Wrth ddarparu enghreifftiau penodol, awgrymir y dylid eu dewis i adlewyrchu'r cyd-destun lleol. **Ni fydd yr holl feysydd a nodir isod yn berthnasol i bob sefydliad, felly dylai sefydliadau ddrafftio eu hymateb yn ysbryd y canllawiau hyn ac addasu eu cynnwys ar gyfer y gwasanaethau neu'r rhaglenni y maent yn eu darparu.**

Dylai pob thema roi enghreifftiau o gyflawniadau a gwelliannau yn ogystal â'r heriau, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu mewn ymateb i sbardunau ansawdd neu adolygiadau allanol a allai fod wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn. Dylid dangos sut y mae'r sefydliad wedi gwrando ar ei bartneriaid gan gynnwys gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, a sut y mae'n dysgu ohonynt ac yn gweithio gyda hwy.

➤ **Cadw'n iach**

Enghreifftiau o gamau i hyrwyddo a diogelu iechyd – enghreifftiau o ordewdra, smygu, alcohol, ymarfer corff, cyfraddau imiwneiddio etc a/neu enghreifftiau o raglenni gwella iechyd sydd wedi'u rhoi ar waith. Enghreifftiau o wasanaethau arloesol mewn gofal sylfaenol a chymunedol i helpu pobl i gadw mewn iechyd da a byw'n annibynnol.

➤ **Gofal Diogel (Gwasanaethau)**

Dylai'r adran hon gynnwys enghreifftiau o gamau i wella diogelwch, gan gynnwys maetheg a hydradu, achosion o syrthio, briwiau pwysu a chynnydd o ran lleihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Dylid cynnwys cynnydd a dysgu o adolygiadau marwolaethau nodiadau achos, digwyddiadau difrifol, materion diogelu ac adolygiadau annibynnol a disgrifiadau o unrhyw ddigwyddiadau "byth" a dysgu yn yr adran hon.

➤ **Gofal Effeithiol (Gwasanaethau)**

Enghreifftiau o gyflawniadau a heriau ar draws cynlluniau cyflenwi gwasanaethau unigol wrth ddarparu llwybrau gofal effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys ymdrechion i integreiddio a chydweithio â gofal cymdeithasol. Efallai y bydd angen i'r adran hon ddangos i'r darlennydd ymhle y gall gael adroddiadau manylach ar gyfer rhai meysydd, ee canser, strôc, iechyd meddwl, gofal sylfaenol, plant etc. Rhai enghreifftiau o gymryd rhan a dysgu ar sail archwiliad clinigol cenedlaethol, adolygiadau o ganlyniadau clinigol ac adolygiadau gan gymheiriaid. Gellid cysylltu hyn â blaenoriaethau ar gyfer gwella yn lleol a hefyd cymryd rhan mewn ymchwil, datblygu ac arloesi, a dysgu o hyn.

➤ **Gofal Gydag Urddas**

Crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y camau y cytunwyd arnynt yn 'Gofal Gydag Urddas', yn ogystal ag enghreifftiau o welliannau neu heriau sydd wedi cael effaith ar fodloni anghenion a phrofiad cyffredinol cleifion â dementia, nam gwybyddol neu nam ar y synhwyrau. Crynodeb o'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod gofal ymataliaeth o safon dda yn cael ei ddarparu, gan gynnwys camau gwella lle y bo angen. Gwelliannau a wnaed yn dilyn arolygiadau a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

➤ **Gofal Prydlon (Gwasanaethau)**

Crynodeb o'r cynnydd a'r camau a gymerwyd i wella mynediad prydlon at wasanaethau, a'r broses o ryddhau o'r gwasanaethau hynny, gan gynnwys mynediad at feddygon teulu, gofal heb ei drefnu, trosglwyddo o ambiwlansys, oedi wrth drosglwyddo gofal ac atal achosion o ryddhau o'r ysbyty yn hwyr yn y nos/gynnar yn y bore, gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol lle y bo angen. Gallai hyn gynnwys crynodeb o'r cyfranogiad o'r rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu. Enghreifftiau o gamau a gymerwyd i leihau'r perygl o niwed sy'n gysylltiedig ag oedi wrth gael mynediad at wasanaethau/gofal, gan gynnwys cyfranogiad o'r rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio.

➤ **Trin Pobl fel Unigolion**

Enghreifftiau o wasanaethau/gofal a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion unigolion ee anghenion cyfathrebu, nam ar y synhwyrau, anabledau a chadw annibyniaeth, cefnogi gofalwyr yn ogystal â gwella gwasanaethau i grwpiau sy'n agored i niwed. Gwranddo ar adborth unigol a dysgu ohono, gan gynnwys Adolygiad Evans Gweithio i Wella a chynnydd ac enghreifftiau o ran gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Sicrhau Profiad Defnyddwyr. Dylai hyn gynnwys data a dysgu o Gweithio i Wella, neu ddangos ymhle y gellir dod o hyd iddynt.

➤ **Ein Staff**

Crynodeb o broffil a heriau'r gweithlu ee camau a gymerwyd i sicrhau lefelau staffio diogel, mynd i'r afael ag anawsterau recriwtio, etc a nifer y gwirfoddolwyr a'r cymorth a ddarperir ganddynt. Enghreifftiau o gamau a gymerwyd yn dilyn adborth/arolygon staff etc. Enghreifftiau o gamau i ddatblygu a chefnogi staff i ddarparu gofal tosturiol a gwneud gwelliannau:

gan gynnwys drwy ddarparu hyfforddiant a datblygiad mewn meysydd fel dementia, nam gwybyddol a nam ar y synhwyrâu, yn ogystal ag arfarnu staff. Dylai'r adran hon hefyd gynnwys cynnydd tuag at ymwreiddio'r Fframwaith Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd, gwobrau i unigolion a thimau.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd yn nodi 3 maes sy'n berthnasol yn benodol i staff, gan gynnwys lefelau staffio, hyfforddiant ac ymateb i safbwyntiau staff. Dylai byrddau ieuchyd lleol ac ymddiriedolaethau wneud mwy i ddangos sut y mae materion o'r fath yn cael eu hystyried yn ystod y flwyddyn a sut y mae canfyddiadau yn cael eu tynnu ynghyd i gefnogi'r dystiolaeth a ddarperir yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol. Mae'r disgwyliadau hyn yn gyson â'r rheini a amlinellir yn y Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal.

Awgrymir y dylid cynnwys datgeliad Cymru o Blaid Affrica yn y thema hon. Efallai y byddwch chi am gynnwys cyfeiriad at wybodaeth fel nifer y staff sy'n cael amser 'gwirfoddoli', nifer y staff sy'n cymryd rhan fel arall drwy waith cysylltiadau ieuchyd, neu unrhyw gyfleoedd dysgu rhyngwladol yr ymgwymerir â hwy. Mae'r adran hon hefyd yn darparu cyfle i dynnu sylw at unrhyw gysylltiadau a phrosiectau rhyngwladol strategol ehangach eraill, ac i dynnu sylw at weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn lleol i roi egwyddorion y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru ar waith:

https://ihcc.publichealthnetwork.cymru/files/4014/8467/3151/IHCC_Charter_for_IHP_Interactive_W.pdf

4. Edrych i'r Dyfodol

Dylai'r adran hon grynhoi sut y mae pob sefydliad wedi defnyddio'r broses i nodi meysydd y dylid canolbwyntio arnynt a'u gwella yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, gan weithio gyda'i holl bartneriaid gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Dylid bod yn gwbl glir wrth nodi camau gwella mesuradwy yn erbyn pob un o'r themâu uchod. Dylai hefyd ddisgrifio sut y bydd y sefydliad yn olrhain cynnydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys tystiolaeth o'r ffordd y mae'n gwrando ac yn dysgu i ysgogi gwelliannau parhaus.

5. Ymgysylltu ac Adborth

Dylid ystyried y ddogfen fel cyfrwng hefyd ar gyfer ymgysylltu ac elfen allweddol o strategaeth gyfathrebu'r sefydliad. Anogir sefydliadau i ymgysylltu â'u holl randdeiliaid neu bartneriaid wrth gytuno ar y Datganiad terfynol a chynnwys unrhyw ddatganiadau cymeradwyo/ymgysylltu fel y bo'n briodol. Dylent hefyd gynnwys manylion sut y gall y darlennydd gysylltu â'r sefydliad i roi sylwadau ar y Datganiad neu i ofyn am ragor o wybodaeth.